

**Clwb Golff Caernarfon – Gwybodaeth Adran Ieuenctid**  
**Caernarfon Golf Club - Junior Membership Guidance**

Ein bwriad yma yng Nghlwb Golff Caernarfon ydi ceisio codi niferoedd o golffwyr ifanc yn yr ardal. Mae aelodau ieuenctid yn hanfodol i ddyfodol y clwb, ag rydym yn gobeithio rhoi'r cyfle iddynt dyfu fel golffwyr ag yn fwy na dim, i fwynhau ei hunain. Fydd y ddogfen yma yn rhoi manylion ar gyfer yr adran Ieuenctid, ynghlwm ag ychydig o reolau i'w helpu. Ein gobaith yw mai dyma fydd ddechrau ar berthynas lwyddiannus rhyngoch chi a golff!

*At Caernarfon Golf Club our aim is to get as much Junior members as possible to help grow the Club. Junior members are imperative for the future of the club and we at Caernarfon Golf Club want to ensure that we give them the best opportunity to grow as golfers, and most importantly enjoy their experience. This document will outline details regarding the Junior section, along with a few simple rules and etiquette tips to help them along their way. We hope that this is the start of a long and successful relationship between you and Golf!*

**Gwybodaeth Cyffredinol/General information**

Mae unrhyw aelod o dan 18 oed yn cael ei gysidro fel aelod ieuenctid.

*A junior is classified as a member under the age of 18.*

Bydd rhaid i pob aelod o dan 13 oed fod mewn cwmni oedolyn tra ar y cwrs ag o gwmpas y clwb. Diogelwch y plant yw ein prif flaenoriaeth.

*All juniors under the age of 13 must be accompanied by an adult on the course and around the clubhouse area. The safety of the children is our main priority, therefore failure to do so will result in sanctions.*

Bydd rhaid i bob aelod ieuenctid ddefnyddio'r system BRS neu ffonio'r clwb er mwyn dewis ei amser chwarae.

*All junior members must book a tee time through the online BRS system, or by phoning the club shop to ensure they are checked in.*

Mae gwersi golff ar gael drwy'r clwb (cost ychwanegol)

*Golfing lessons are available through the club (at a cost).*

**Diwrnod y Ieuenctid/Juniors Day**

Rydym yn sicrhau fod amser dyranedig i'r ieuenctid gael chwarae ar ddydd Sul. Cynhelir gwersi ar gyfer y plant hefyd ar Nos Iau.

*We ensure that there is an allocated slot on Sundays for Juniors to go out and play the course. Lessons are also held on Thursday nights.*

Bydd rhaid i aelodau ieuenctid ddod a chlybiau ag offer ei hunain (ti, peli, clybiau). Mae modd prynu stwff yn siop y Clwb.

*Juniors must bring their own clubs and equipment, including clubs, tees, balls.*

Y bwriad ydi fod yr adran ieuenctid yn cyfarfod pob dydd Sul am 2 o'r gloch lle byddem yn cael ymarfer yn yr ardal 'chipio a puttio'. Yn dilyn hyn bydd cyfle iddynt fynd allan ar y cwrs (efo oedolyn). Bydd y trefniant yma yn digwydd o Chwefror i Hydref, gyda sesiwn unwaith y mis dros y gaeaf. Bydd manylion yn cael ei rannu ar grwp whatsapp gwarchodwyr y plant

*The junior section will meet up every Sunday from 2-3pm on the chipping and putting area. They will then have allocated slots to go out and play the course (assisted by their parent/guardian). This will happen between February and October, with meetups every month in the winter months. Details will be shared via the juniors guardian' whatsapp group.*

Bydd rhaid i bob gwarchodwr aros yn y clwb tra mae'r sesiwn ymlaen.

*All parents/guardians must be present during the junior meet up.*

Os bydd y niferoedd yn codi, y bwriad yw aildechrau ar gystadleuthau ieuenctid.

*Once the number of juniors increase, our objective is to start Junior competitions.*

## **Rheolau Cyffredin Golff/General Golf Rules**

### **Offer/Equipment.**

Uchafswm o 14 clwb, ag mae RHAID cael puttar gan mai dyma'r unig glwb all gael ei ddefnyddio ar y lawntiau.

*A maximum of 14 clubs. You MUST have a Putter as this is the only club allowed to be used on the greens.*

### **Dilland/Clothing**

Ychydig o eitemau dillad na chaniateir ar y cwrs;

*A few items of clothing that are not prohibited;*

Jeans

Dillad Pel droed/Football clothes

Crysau efo 'Slogan'/Slogan tops

Tracksuits

### **Ti/Tees.**

Ar bob twll fe welwch farcwyr Ti o wahanol liwiau. Bydd rhaid i bob plentyn gymryd ei ergyd cyntaf o'r Marcwyr GLAS.

*On each hole you will find different coloured tee markers. All juniors must hit their first shot from the BLUE tee markers.*

Pan yn barod i hitio'r bel, gwnewch yn siŵr fod neb o'ch blaen a all fod o ffordd y bel.  
*When you're about to hit your shot, please ensure that there is nobody in front of you who you could possibly hit with your shot.*

### **Yn ystod y twll/During the hole.**

Mae rhaid hitio'r bel fel y gwelir. Ni chaniateir symud y bel a ni chewch ddefnyddio ti ar ôl gadael y marcwyr ti.

*You must play the ball as it lies, you may not move the ball and you may not use a tee when not on the tee box.*

Ar ôl hitio'r bel, os oes tamaid o'r gwair/mwd wedi codi o'r llawr gwnewch yn siŵr fod hwn yn cael ei godi a'i rhoi nôl mewn i'r twll yn y llawr.

*Should a piece of turf be taken from the ground, please ensure you pick it up and replace it in the ground.*

Os ydych chi'n cymryd ergyd o'r tywod, mae yna declyn yna er mwyn sicrhau fod y tywod yn nol yn llyfn.

*Should you go into the sand (bunker), there are pre-placed rakes for you to smooth the sand following your shot.*

Dim ond eich pêl chi ddylai gael ei hitio – dim pêl neb arall.

*Ensure that you only hit your ball and no-one else's.*

### **Y Lawntiau/Greens.**

Dim ond puttar ddylai gael ei ddefnyddio ar y lawntiau.

*You may only use a putter on the greens*

Mae'r opsiwn yna i buttio efo'r fflag i mewn neu allan.

*There is the option of putting with the flag inserted or taken out.*

Ar ol gorffen y twll, rhowch y fflag yn nol yn y twll ag symyd mlaen i'r twll nesaf.

*Once you have finished the hole, replace the flagstick if removed and proceed to the next tee.*

### **Arferion ar y cwrs ag o amgylch y clwb. Etiquette on the course and surrounding areas.**

Yn gyffredinol, y chwaraewr sydd pellaf oddi wrth y twll bydd yn hitio'r ergyd nesaf.

*Generally, the player furthest away from the hole will play first.*

Tydi golff ddim yn cael i'w chwarae mewn sŵn mawr, felly dim rhedeg a gweiddi tra ar y cwrs.

*Golf should not be played in loud noise therefore avoid shouting and running on the course.*

Does dim rheolau yn erbyn siarad a chael hwyl, ond dim siarad tra mae ei'ch partneriaid chwarae yn hitio'i bêl.

*You may chat and have fun, however it's important not to be chatting whilst a playing partner is taking their shot.*

### **Y Clwb a'r Siop/Clubhouse and shop:**

Mae gennym far sydd yn gwerthu bwyd a diod. Plant o dan 13 i fod mewn cwmni oedolyn.

*We have a bar area where you may purchase food and drink. Under 13's to be accompanied by an adult.*

Mae loceri a man newid i enethod a bechgyn.

*There is a changing area for both male and female junior golfers*

Mae'r clwb yn rhedeg y siop ei hunain bellach. Yma mae'n gwerthu bwyd a diod a llwyth o gynnyrch golff.

*The club itself now runs the shop, here you will find a selection of golf products and refreshments to purchase.*

---

Mi rydym eisiau sicrhau fod yr aelodau ieuenctid i gyd yn teimlo'n gyffyrddus o gwmpas y clwb. Os yn ansicr am unrhyw beth, peidiwch â bod yn ofn holi, mae'r staff ag aelodau yma i helpu.

*We want to ensure that all juniors feel comfortable at the club. If you are unsure about anything, whether it's a general question or golf related don't be afraid to ask, the members and staff are here to help*

**Os nad ydych yn dod o gefndir golffio a ddim yn teimlo yn gyffyrddus yn mynd allan ar y cwrs, gofynnwch yn y siop os oes modd trefnu bod yr aelod ieuenctid yn gallu chwarae cwpl o dyllau efo rhywun. Bydd aelod o staff/aelod o'r clwb ddigon parod i helpu.**

*Should you feel that if you are not in line with the rules and the general etiquette of the game, please feel free to ask a member of staff if it can be arranged for the junior to play a couple of holes with a member of the club or member of staff.*